# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 8fed 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Gwynedd Jones, Arwel Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Jones, Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Rhys Richards, Geraint Davies a Huw Charles.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chytunwyd i'w cadarnhau yn y cyfarfod nesaf pan fyddai mwy o gynghorwyr yn bresennol.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-
i) Cyfyngiad cyflymder i Lanycil
Derbyniwyd cadarnhad gan Mabon ap Gwynfor, AS. y byddai'n ymgyrchu ar ein rhan ac awgrymodd i'r Cyngor nodi eu pryderon ar wefan Gan Bwyll fel man cychwyn. Cytunwyd i wneud hyn cyn gynted a fyddai'r gwaith cryfhau arglawdd wedi gorffen.

b) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref.
Cafwyd adroddiad gan y clerc o oblygiadau'r deddfau newydd. Cytunwyd i dalu'r clerc am y gwaith ychwanegol ynghlwm a'r deddfau newydd.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Ymgynghoriad Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn. Cytunwyd i'w gwblhau.

b) Amrywiol.
i) Cymdeithas yr Iaith – cais i gefnogi eu hymgyrch yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu a sicrhau fod cymunedau lleol yn gallu rheoli'r farchnad dai. Cytunwyd i gefnogi'r ymgyrch ac i Euros Puw arwyddo'r llythyr ar ran y cyngor cymuned (gyda Gwynedd Jones yn mynychu os fyddai Euros yn methu).
ii) Cymru dros Ewrop – ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau a fydd yn effeithio ar ddinasyddion yr UE ac AEE-EFTA sy'n byw yng Nghymru.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**vi) Materion Ariannol**
a) Archwiliad Blynyddol.
Nodwyd sylwadau'r archwilwyr mewnol a chytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau cyfrifyddu a llywodraethu yn y ffurflen archwiliad blynyddol.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**
Ni chyflwynwyd unrhyw fater i sylw'r cyngor.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 13eg am 8.00 y.h. drwy gyfrwng "Zoom".



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….